



Gaeaf
2025
Rhifyn 47

index
y mynegai



Y CYLCHLYTHYR
i blant a phobl ifanc
sydd ag anableddau
neu anghenion
ychwanegol ym
Mro Morgannwg



Newyddlen y Mynegai

Gaeaf 2025 | Rhifyn 47



Y cylchlythyr ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol ym Mro Morgannwg

Hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau cyfnod prysur y Nadolig ac er gwerthfawrogi'r newid i'r drefn arferol, gall y traddodiadau, dewrio'r torfeydd, a disgwyladau cymdeithasol ychwanegol fod yn brofiad synhwyraidd llethol i blant a rhieni sy'n ofalwyr. Byddai'r rhan fwyaf ohonoch wedi gwneud addasiadau bach sy'n golygu amser cynhwysol a llawen i bawb. Rydym yn gobeithio bod y wybodaeth yn ein e-fwletinâu cyn y Nadolig wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi gallu eich cefnogi gyda hyn. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl ar lawr gwlad.



Rydym yn cynhyrchu'r cylchlythyrâu hyn yn ddigidol ac ar ffurf copi caled, felly bydd gennych yr opsiwn i glicio ar ddolenni neu sganio cod QR i gael rhagor o wybodaeth.

Y Newyddion Mynegai

Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) yn cynnal Parti Nadolig am ddim i deuluoedd yn y Fro | 0-18 | Hysbysrwydd

Cynhaliodd ein Tîm GGiD 2 barti Nadolig ar gyfer teuluoedd yn y Fro ar 5 Rhagfyr.

Er gwaetha'r tywydd ofnadwy, daeth dros 500 o blant, rhieni a gofalwyr i'r digwyddiadau am ddim yn y Memo, y Barri, a mwynhau cymryd rhan yn yr holl weithgareddau Nadoligaidd a ddarparwyd gan ein gwasanaethau gwych yn y Fro. Fe wnaeth sefydliadau fel y Tîm Datblygu Chwarae a Chwaraeon, Dewis Cymru, y Tîm Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, y Tîm Cymorth Cynnar, Dechrau'n Deg, Mudiad Meithrin, Cymunedau am Waith a Mwy a llawer mwy gymryd ran ac ymgysylltu â theuluoedd am eu gwasanaethau, wrth gynnig gweithgareddau Nadolig gwych. Cafodd y plant gyfle i gwrdd â Siôn Corn a gwylio côr lleol, gyda'r plant iau'n cael cyfle i ganu caneuon Cymraeg gyda Rhiannon James o'r Mudiad Meithrin. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn: "Roedd yr holl stondinau'n wych ac mor groesawgar. Roedd hi'n hyfryd cwrdd â theuluoedd eraill a mwynhau pethau fyddai fel arfer yn costio llawer o arian. Roedd fy merch wrth ei bodd o gwrdd â Siôn Corn, canu gyda Rhiannon a gwneud llawer o chwarae blêr"

Os oedd unrhyw un ohonoch yn bresennol, gobeithio y buoch chi'n mwynhau.

Gallwch ddarganfod mwy am y Parti Nadolig a'r adborth a gafwyd. [Gallwch ddarllen yr adroddiad.](#)

Gallwch ddarganfod mwy am y Parti Nadolig a'r adborth a gafwyd. [Gallwch ddarllen yr adroddiad.](#)



Eich barn

Byddai'n bleser mawr gennym dderbyn unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar y Mynegai ond yn enwedig rhifyn gaeaf y cylchlythyr hwn, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i'w deilwra i anghenion ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd yn y Fro. Mae ein manylion cyswllt isod at y diben hwn:

2

Ffôn: 0800 5871 014 E-bost: TheIndex@valeofglamorgan.gov.uk
Cliciwch [yma](#) i gwblhau ein harolwg byr neu sganiwch y **cod QR**.



Y Newyddion Mynegai

Mae'r Mynegai wedi cyhoeddi canllaw newydd, Addysg i'ch plentyn ag anghenion ychwanegol yn y Fro | Hysbysrwydd



Mae'r Mynegai wedi cynhyrchu Canllaw Addysg ar gyfer teuluoedd plant ag anghenion ychwanegol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau neu sylwadau ar hyn. Byddwn yn ei adolygu bob 6 mis felly bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu o fewn y llinell amser honno.

Mae'r Mynegai wedi ffurfio grŵp ymgynghori gyda chymysgedd o riant-ofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae'r grŵp wedi adolygu 2 adnodd newydd i'r Mynegai, a byddwn yn parhau i anfon deunyddiau newydd i aelodau'r grŵp yn electronig i geisio eu barn.

Os hoffech gymryd rhan, e-bostiwch theindex@valeofglamorgan.gov.uk

Gallwch weld ein hadnoddau newydd trwy glicio ar y [dolenni](#) neu sganio'r [codau QR](#).



Y Mynegai yn mynd i'r Gwobrau Deall Anabledd gan Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro | Hysbysrwydd

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2024, yn tynnu sylw at ymdrechion eithriadol unigolion a sefydliadau sy'n ymroddedig i wella bywydau pobl ag anabledau ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mae rhai o'r enillwyr o Fro Morgannwg yn cynnwys:



I gael rhestr lawn o'r enillwyr, cliciwch [yma](#) neu sganiwch y [cod QR](#)



I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad a rhestr o gategoriâu, cliciwch [yma](#) neu sganiwch y [cod QR](#).



Roedd y Mynegai yn rownd derfynol Gwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru 2024 | Hysbysrwydd

Cynhaliwyd Gwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru ThinkEDI 2024, a noddwyd gan Ogi, ddydd Mawrth 17 Rhagfyr 2024

Daeth y digwyddiad â phobl anhygoel o bob cefndir ynghyd i ddathlu amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ac arddangos cyflawniadau rhyfeddol unigolion, sefydliadau a chymunedau sy'n gyrru cynnydd a chreu cymdeithas fwy cynhwysol yng Nghymru.



Cyrhaeddodd Y Mynegai y 'rownd derfynol' yn y digwyddiad hwn. Er na enillodd Y Mynegai eu categori, sef y Wobr Gwasanaeth Cynhwysol, cawsom ein canmol gyda medal yn cydnabod ein cyfraniad. Cawsom ein trechu gan 'Motion Control Dance', a oedd yn enillwyr teilwng iawn.

Aeth Becky a Lyndsey i'r digwyddiad, gan nodi, "Roedd yn ddathliad o waith ystyrlon ac yn gyfle i gysylltu â phobl sydd wir yn poeni am wneud gwahaniaeth".

Roeddem yn falch iawn o weld ein cydweithiwr Tristan Harris, Swyddog Gofal Cymdeithasol y Tîm Cymorth Cynnar, yn ennill y wobwr 'Gweithiwr Proffesiynol Rheng Flaen Cynhwysol'. Mae Tristan yn cefnogi rhieni sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc yn y Fro. Da iawn.




Edrychwch ar y fideo o Wobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024! neu sganwch y **cod QR**.

Ymweliad y Mynegai â'r Ystafell Ddosbarth Ymgolli yn Ysgol Gynradd Tregatwg | Hysbysrwydd

Roedd Lyndsey a Cath wrth eu boddau o ymweld â'r Ystafell Ddosbarth Ymgolli nôl ym mis Tachwedd 2024.

Mae'r ystafell ddosbarth, a ariannwyd trwy Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, yn defnyddio meddalwedd Ymgolli Ryngweithiol i weithredu, sy'n cynnwys llyfrgell fawr o raglenni parod i'w defnyddio sydd ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg.

I gael adroddiad llawn a rhagor o wybodaeth am logi'r lle hwn a'r 'neuadd chwaraeon gyfagos os oes angen', cliciwch [yma](#) neu sganiwch y **cod QR**.



Y Mynegai'n cefnogi teuluoedd o Affganistan a'r Wcráin | Hysbysrwydd

Mae'r tîm yn gweithio gyda Thîm Ailsefydlu Bro Morgannwg a'r Tîm Ymwelwyr Iechyd i gefnogi teuluoedd agored i niwed o Affganistan ac Wcráin sy'n cael eu hadsefydlu ym Mro Morgannwg.

Mae hyn wedi golygu cyfieithu ein deunyddiau i Pashto, Dari ac Wcreineg a threfnu cyfieithu gwybodaeth bwrpasol ar gyfer teuluoedd ar sail oedrannau, diddordebau ac anghenion plant. Rydym yn mynychu sesiynau gwybodaeth gyda'r teuluoedd hyn. Rydym hefyd yn gallu manteisio ar gyfieithydd a gallwn wneud galwadau ffôn tair ffordd i gefnogi'r teuluoedd hyn lle nad oes Saesneg yn cael ei siarad.

Cliciwch [yma](#) am Gynlluniau Cymorth ar gyfer Wcráin neu sganiwch y **cod QR**.



Beth sy'n digwydd yn lleol?

Rainbow Group | dan 5 oed | Dim angen diagnosis



Pryd: Bob dydd Iau yn ystod y tymor

Amser: 10-11:30am

Ble: Tŷ Robin Goch, Y Barri CF63 1QB

Pryd: Bob dydd Mawrth yn ystod y tymor

Amser: 1.15 - 2.45pm

Ble: Y The Gathering Place, Sain Tathan CF62 4JH



Grŵp chwarae aros a chwarae ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a'u rhieni/gofalwyr

- Cwrdd â ffrindiau newydd
- Cymorth a gwybodaeth
- Canu a Rhigymau
- Chwarae Synhwyrdd
- Chwarae meddal
- Cerddoriaeth a symudiad

E-bost: kbarrett@valeofglamorgan.gov.uk neu zbell@valeofglamorgan.gov.uk

Beth sy'n digwydd yn lleol?

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro | 0-18 oed | Dim angen diagnosis

Os ydych chi'n chwilio am weithgareddau ar draws y Fro, gallwch ddod o hyd i lawer o opsiynau ar ein tudalen we GGiD: www.gwybodaethgofalplant.cymru neu cysylltwch â GGID yn uniongyrchol ar: 01446 704704

Mae ein **canllaw cam wrth gam** yn gallu eich cefnogi hefyd wrth lywio'r dudalen i gael mynediad i'r teils arbenigol a'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu'n ddiweddar i gynnwys profiad y darparwyr o weithio gyda phlant/pobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol, os ydych am ddod o hyd i'r wybodaeth hon eich hun. Rydym yn hapus iawn i wneud hyn ar ran unrhyw un sy'n gallu cael ei drefnu trwy gysylltu â ni ar Ffôn: 01446 704704 neu e-bostio: theindex@valeofglamorgan.gov.uk



Cymorth arbenigol i deuluoedd plant ag anableddau / anghenion ychwanegol (101)

Amrediad o wasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n rhoi cymorth arbenigol i deuluoedd plant ag anableddau / anghenion ychwanegol.



Gweithgareddau sy'n cefnogi plant ag anableddau / anghenion ychwanegol (56)

Amrediad o weithgareddau plant a phobl ifanc sy'n gallu cefnogi plant gydag anableddau / anghenion ychwanegol.



Motion Control Dance | 3 oed i oedolion | Dim angen diagnosis



Pryd: Mae llawer o opsiynau ar gael – mae'r amserlen i'w gweld ar eu gwefan

Ble: Motion Control Dance Studio, Canolfan YMCA, Court Road, Y Barri CF63 4EE

Mae Motion Control Dance wedi cwblhau'r safonau InSport gan ennill statws Rhuban, Efydd, Arian ac Aur.

Mae'r rhaglen Clwb InSport yn rhan o'r Prosiect InSport ehangach sy'n ceisio cefnogi'r sectorau gweithgarwch corfforol, chwaraeon a hamdden sy'n darparu pobl anabl yn gynhwysol.



Ym mis Tachwedd 2024, daeth dawnswyr proffesiynol Strictly Come Dancing y BBC ar ymweliad arbennig i dynnu sylw at y gwaith anhygoel y maent yn ei wneud trwy gyllid Plant Mewn Angen. Roedd y cynhyrchwyr eisiau dathlu llawenydd dawnswyr a dangos sut mae'n dod â phobl at ei gilydd, ni waeth beth yw eu galluoedd. Mae Motion Control Dance hefyd wedi ennill Gwobr Gwasanaethau Cynhwysol yng Ngwobrau Amrywiaeth a Chynhwysiant Thinkedi ym mis Rhagfyr 2024.

Ffôn: 07725 038778 E-bost: info@motioncontroldance.com
Gwefan: www.motioncontroldance.com



Beth sy'n digwydd yn lleol?

Darpariaeth Chwarae Cynhwysol y Fro | 5-14 oed | Dim angen diagnosis



Bydd Tîm Chwarae'r Fro yn rhedeg ein cynllun chwarae mynediad agored am ddim dros hanner tymor mis Chwefror.


Pryd: Dydd Mawrth 25, dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Chwefror 2025

Amser: 10am - 12pm ac 1pm - 3pm

Ble: Canolfan Dysgu Oedolion Palmerston, Cilgant Cadoc, Y Barri CF63 2NT

Mae'r ddarpariaeth yn gynhwysol. Mae'r holl sesiynau'n cael eu darparu gan weithwyr chwarae hyfforddedig ac yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau dan do ac awyr agored sy'n llawn hwyl: chwarae synhwyrdd, gemau grŵp, chwarae blêr, ceginau mwdlyd, aml-gamp, modelu sothach a llawer mwy.

Sesiynau galw heibio a chwarae yw'r sesiynau hyn. Gallwch lenwi ffurflen gofrestru ar y diwrnod, neu ymlaen llaw yma: **Ffurflen gofrestru** neu sganiwch y **cod QR**.



Oherwydd y galw mawr, mae'n rhaid i blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt tra byddant yn ein darpariaeth chwarae gael eu hatgyfeirio gan naill ai Weithiwr Cymdeithasol neu'r Tîm Cymorth Cynnar.

Oherwydd ein dull gwaith chwarae, efallai na fydd angen yr un lefel o gymorth ychwanegol ar blant yn ein darpariaeth chwarae ni y gallai fod ei angen arnynt mewn lleoliadau eraill.

Mae croeso i chi gysylltu â'r tîm i drafod addasrwydd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion eich plentyn: playdevelopment@valeofglamorgan.gov.uk

Teenscheme | 11-18 oed | Angen diagnosis

Pryd: Bob dydd Mercher a dydd Iau yn ystod gwyliau'r ysgol

Amser: 10am - 3pm

Ble: Canolfan Gymunedol Celtic Way, Celtic Way, Y Rhws CF62 3FT



Mae Teenscheme yn amgylchedd cynhwysol, a nod y sesiynau yw rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu hunain a grymuso eu lleisiau a'u penderfyniadau mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar.

Bydd angen i rieni ddarparu'r cludiant i'r ganolfan ac oddi yno. Bydd y bobl ifanc yn darparu eu byrbrydau, eu cinio a'u diodydd eu hunain. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad bach o £5.

Bydd ganddynt Gynorthwyywyr Personol i roi gofal personol iddynt, a bydd un wedi cael hyfforddiant meddygol ar gyfer pobl ifanc sydd angen cael eu bwydo drwy PEG. Hyn a hyn o leoedd sydd ar gael.

Mae presenoldeb yn Teenscheme yn amodol ar hyd ar gael atgyfeiriad, sydd ar gael trwy: tmills@valeofglamorgan.gov.uk



Beth sy'n digwydd yn lleol?

Clwb Hwb | 11-16 oed | Dim angen diagnosis

Pryd: Bob dydd Mercher yn ystod y tymor

Amser: 5:30pm – 7:30pm

Ble: YMCA, Court Road, Y Barri CF63 4EE

Clwb Ieuenctid yw Clwb Hwb i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n cynnig Celf a Chrefft, Cerddoriaeth, Gemau, Chwaraeon a Choginio. Nid oes unrhyw ofal personol neu gymorth un i un ar gael. Cysylltwch ag Annette Harrison gydag unrhyw ymholiadau.

E-bost: aharrison@valeofglamorgan.gov.uk



Taith gerdded nodedig Ysgol y Deri ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth | Hysbysrwydd



Plotiwyd llwybr 10 cilomedr (gan ddechrau ym Mae Caerdydd) gydag adrannau ac opsiynau byrrach ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Roedd pedwar dosbarth chweched dosbarth am gymryd rhan felly roedd 34 o ddisgyblion yn cymryd rhan gyda'u timau staff dosbarth ar y diwrnod.

Fe wnaeth tua hanner ohonynt gerdded y 10 cilomedr cyfan.

Gydag opsiynau codi hyblyg, cerddodd llawer o ddisgyblion ymhellach nag yr oeddent wedi'i gynllunio neu wedi meddwl y gallent.

Gorffennodd y mwyafrif eu taith gerdded ar y llinell derfyn swyddogol yn Cosmeston lle cawsant fedalau. Roedd pawb yn hapus ac yn falch iawn o'u cyflawniadau.

Fe wnaeth y tywydd braf helpu. Roedd yn her fawr ac yn gyfle cymdeithasol i'r disgyblion a'r staff sy'n dod i arfer â grwpiau dosbarth newydd y tymor hwn. Roedd staff y Fro wedi mwynhau cyfarfod a threulio amser gyda'n disgyblion.

Casglodd y disgyblion dros £400. Bydd yr arian hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer rhywbeth penodol yn y ddarpariaeth chweched dosbarth newydd ar ôl ymgynghori â'r disgyblion.




Ysgol Y Deri – ysgol arbennig yn dychwelyd i sgriniau teledu yn nhrydedd cyfres sioe BBC One | Hysbysrwydd



Mae'r rhaglen wedi cael ei henwebu am ddwy wobwr BAFTA Cymru ac wedi ennill gwobr gan Gymdeithas Deledu Frenhinol Cymru yn y categori comedi neu adloniant.

Mae'r ysgol ym Mhenarth yn darparu ar gyfer myfyrwyr rhwng 3 ac 19 oed sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu a chorfforol ac awtistiaeth.

Gwiliwch yma neu sganio'r cod QR



Beth sy'n digwydd yn lleol?

Gwasanaeth Cymorth i Blant ag Awtistiaeth - Barnardo's | 5-18 oed | Angen diagnosis ar gyfer Cygnet ond nid oes angen diagnosis ar gyfer gwasanaethau eraill



Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Blant ag Awtistiaeth yn cael ei ddarparu gan Barnardo's Cymru a'i ariannu drwy Teuluoedd yn Gyntaf Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi teuluoedd sy'n byw ym Mro Morgannwg ac sydd â phlentyn/plant rhwng 5 a 18 oed sydd wedi cael diagnosis awtistiaeth ffurfiol neu sy'n aros am asesiad awtistiaeth gan y Tîm Niwroddatblygiadol. Rydym yn cefnogi rhieni a gofalmwyr drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i helpu'r teulu cyfan. Darperir cymorth arbenigol sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu, deall prosesu synhwyrdd, a chefnogi ymddygiad sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth.


Ein cynnig i rieni/gofalmwyr plant 8-18 oed sydd â diagnosis awtistiaeth yw Rhaglen Cygnet Barnardo's. Cyflwynir hyn yn rhithwir ac wyneb yn wyneb ac mae'n cynnwys chwe sesiwn sy'n trafod pynciau fel meddwl, prosesu synhwyrdd, cyfathrebu ac ymddygiad.

Ar gyfer y rhieni/gofalmwyr y mae eu plant yn cael eu hasesu ar gyfer diagnosis gan y Tîm Niwroddatblygiadol ac sydd rhwng 5 a 18 oed, rydym yn cynnig sesiynau thema rhithwir ac wyneb yn wyneb gan edrych ar gyngor, arweiniad a strategaethau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu, anghenion synhwyrdd ac ymddygiad.

Mae ein Grŵp Llwybr Niwroddatblygiadol i Rien yn cynnwys sesiwn wythnosol am bedair wythnos bob chwarter a chynigir ein sesiynau ar-lein â thema bob mis, gan gynnig sesiynau yn y bore, prynhawn a gyda'r nos.

Gwneir atgyfeiriadau ar gyfer y gwasanaeth drwy Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth amdanom yma: **Gwasanaeth Cymorth i Blant ag Awtistiaeth** Beth mae rhieni sydd wedi cael mynediad i'r Grŵp Llwybr Niwroddatblygiadol i Rien yn ei ddweud?


- "Gwasanaeth gwych, staff sy'n agos-atoch a chyfeillgar; teimlo ei bod hi'n iawn teimlo fel pe bawn i wedi fy llethu y rhan fwyaf o'r amser; gwybod nad yw fy mhentyn ar ei ben ei hun."
- "Dysgais lawer yn ystod y cwrs, ac mae wedi helpu i wella fy nealltwriaeth. Roedd yn syfrdanol dysgu am yr 8 synnwyr."



The Hangout yn lansio yn Y Barri | 11-18 oed | Dim angen diagnosis

Mae'n bleser gan Platfform a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyhoeddi agoriad The Hangout yn y Barri, sef hyb cymorth iechyd meddwl a lles emosiynol i blant a phobl ifanc.

Mae The Hangout yn y Barri yn 3A Tynewydd Road ac yn ganolfan lle mae pobl 11-18 oed yn gallu cael cymorth iechyd meddwl, cwrdd â phobl eraill a chymryd rhan mewn grwpiau sy'n gallu hybu lles.



Gwefan: <https://platfform.org/news/launching-the-hangout-barry/> Taflen Adnoddau Hangout

Beth sy'n digwydd yn genedlaethol?

Dreamflight | 8-14 oed

| amrywiaeth eang osalwch ac anableddau



Mae Dreamflight yn elusen gofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Bob mis Hydref, mae 192 o blant o bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn dod at ei gilydd i fynd ar awyren breifat Dreamflight i Orlando. Mae tîm gwirfoddol enfawr o feddygon, niysys, ffisiotherapyddion a chynorthwyr eraill yn gofalu am y plant am 10 diwrnod heb rieni/gofalwyr. Mae gwirfoddolwyr a chefnogwyr yn codi arian ar gyfer yr elusen drwy gydol y flwyddyn, er mwyn gwneud i'r daith ddigwydd. Maent yn credu bod y profiad 10 diwrnod yn helpu i feithrin annibyniaeth, hyder a chyfeillgarwch.

Rhaid i blant fod rhwng 8 a 14 oed ar y dyddiad teithio i Orlando. Rydym yn derbyn enwebiadau ar gyfer plant ag ystod eang o afiechydon ac anableddau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Ffibrosis Systig, Parlys yr ymennydd, canserau, epilepsi, problemau cardiaidd, haemoffilia ac amheumon. Ers 2021, mae Dreamflight hefyd wedi mynd â grwpiau bach i ganolfannau gweithgareddau cwbl hygyrch yn y Deyrnas Unedig.


Cliciwch **yma** am fwy o wybodaeth neu sganiwch **cod QR**



Synhwraidd | Plant i fod yn oedolyn | Dim angen diagnosis

Mae pum carafán ym Mhorthcawl wedi dod yn hafan ddiogel i blant ag anghenion ychwanegol ar ôl i fam benderfynu helpu teuluoedd fel hi y gall gwyliau fod yn brofiadau anodd a llethol iddynt.

Darllenwch fwy **yma** neu sganio'r **cod QR**



We:Thrive | 16+ ac oedolion | Dim angen diagnosis

Mae WE:THRIVE yn wasanaeth newydd i helpu pobl sydd â heriau iechyd meddwl a chorfforol yn ardal Caerdydd a'r Fro. Eu nod yw annog a chefnogi cyfranogwyr gydag ymagwedd gyfannol at les ac adferiad, trwy fynediad at waith. Maent yn adeiladu ar gryfderau, sgiliau a dewisiadau'r cyfranogwyr, gan arwain at ganlyniadau iechyd meddwl gwell. Mae'r gwasanaeth WE:THRIVE ar gyfer unrhyw un sydd eisiau cymorth i gael gwaith cystadleuol â thâl fel rhan o'u taith adfer.

Cysylltwch â'ch Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a gofynnwch am gael eich cyfeirio at y gwasanaeth. Gallwch hefyd hunangyfeirio trwy lenwi'r ffurflen **Hunangyfeirio** ar-lein neu sganio'r **cod QR** a chwblhau'r ffurflen.



Beth sy'n digwydd yn genedlaethol?


Grŵp LEGO yn cyhoeddi mentrau newydd i gefnogi cefnogwyr a chydweithwyr ag anableddau, cyflyrau ac anghenion synhwyraidd nad ydynt yn weladwy | 2+ - oedolion | Hysbysrwydd



Mae'r cwmni'n partneru gydag Anableddau Cudd Sunflower i greu ymwybyddiaeth trwy gynhyrchion LEGO; Cefnogir gan hyfforddiant cyflogaion.

Mae'r blodyn haul wedi dod yn symbol a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer pobl â chyflyrau nad ydynt yn weladwy, gan nodi y gallai fod angen cefnogaeth, amser neu ddealltwriaeth ychwanegol arnynt mewn gweithgareddau dyddiol fel teithio, siopa, gwaith neu fannau cyhoeddus. Mae mentrau newydd Grŵp LEGO yn cynnwys:

- Mae'r teganau cyntaf erioed i ymddangos laniard blodyn yr haul swyddogol wrth i Lego® Friends, LEGO® Icon, a LEGO® DUPLO ddatgelu cyfeiriadau blodau haul i hyrwyddo cynhwysiant
- Pob un o'r 55 Ffatrioedd Minifigure LEGO ledled y byd i lansio dyluniadau iard blodau haul, gan ganiatáu i gefnogwyr bersonoli eu ffigurau bach fel gwisgwyr blodau haul.
- Partneriaeth newydd gydag Anableddau Cudd Sunflower i gefnogi gweithwyr yn well. Darllenwch fwy yma neu sganwch y cod QR



Llwybr niwroddatblygiadol | Hyd at 18 mlynedd | Hysbysrwydd

Mae'r Broses Atgyfeirio Niwroddatblygiadol wedi'i hadolygu a'i diweddarau ym mis Rhagfyr 2024. Yn ogystal â llawer o weithwyr proffesiynol, derbynnir atgyfeiriadau hefyd gan rieni plant a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth neu sganwch cod QR



Cysylltiadau Defnyddiol

Cymorth niwrowahaniaeth drwy linell gymorth C.A.L.L. CYMRU

Os ydych yn poeni neu os oes gennych bryderon yn ymwneud â Niwrowahaniaeth, mae'r tîm yn CALL ar gael i gynnig cymorth emosiynol drwy'r llinell gymorth.

Tecstiwch: Help i: 81066 Ffôn: 0800 132 737

Cliciwch yma i ymweld â gwefan CALL neu sganwch y cod QR



Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd Caerdydd a'r Fro

I gael awgrymiadau ar sut i helpu sgiliau cyfathrebu eich plentyn, cysylltwch â llinell gymorth iaith a Lleferydd Caerdydd a'r Fro ar: 02921 836 585



Gwasanaeth ChatHealth Caerdydd a'r Fro

Gwasanaeth tecstio ar gyfer eich plentyn 11-19 oed am gyngor a chymorth. : 07520 615718



Cysylltiadau Defnyddiol

Gwasanaeth Nyrso Ysgolion Caerdydd a'r Fro

Siaradwch â Thîm Nyrso Ysgolion y Fro am amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys lles emosiynol, newidiadau i'r corff, pwysau iach a mwy: 01446 704114

Neu, defnyddiwch y gwasanaeth tecstio 'Parentline' ar: **07312 263178**.

Mae Parentline ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol.

Llinell rhieni



Gwasanaethau Cymorth Cynnar Bro Morgannwg

Llinell Gyngori Teuluoedd yn Gyntaf i gael gwybodaeth am berthnasoedd teuluol, gofal plant, rhianta, asesiadau rhieni a gofalwyr ifanc, cyflogaeth, arian a thai: **0800 0327322**



Cliciwch **yma** i ymweld â thudalen Teuluoedd yn Gyntaf y Llinell Gyngor neu sganwch y **cod QR**.

Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd Caerdydd a'r Fro

Yn y bôn, bydd y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn cynnig gwasanaeth cyffredinol i deuluoedd â phlant dan 5 oed.

Cyffredinol: **02921 836 916** Dechrau'n Deg y Fro: **01446 732180**



Therapi Galwedigaethol Caerdydd a'r Fro i Blant a Phobl Ifanc

Gall unrhyw un bellach ofyn am fynediad at therapi galwedigaethol heb orfod mynd trwy weithwr gofal iechyd proffesiynol arall: 02921 836910

Cliciwch **yma** i ymweld â'r dudalen Therapi Galwedigaethol neu sganwch y **cod QR**.



Rhestr wirio **Ready, Steady School!** o weithgareddau a thechnegau

cydbwysu i ddysgwyr roi cynnig arnynt yn ystod y cyfnod pontio, ochr yn ochr ag oedolyn dibynadwy. Cliciwch **yma** neu sganwch y **cod QR**



A-Y o Adnoddau Ar-lein

Cliciwch **yma** am A-Y Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o adnoddau ar-lein neu sganwch y **cod QR**.



Gwefan Niwrowahaniaeth Cymru Cliciwch **yma** i gael mynediad i'r adnoddau ar wefan Niwrowahaniaeth Cymru neu sganwch y **cod QR**.



Pontio

Sesiynau Galw Heibio Niwroamrywiaeth | 16+ | Dim angen diagnosis

Pryd: Dydd Llun 24 Chwefror (bob pythefnos) Amser: 2pm-4pm

Ble: Y Pod, Golau Caredig, Y Barri CF62 7AZ

Mae Celt+ a Cymunedau am Waith yn cynnal sesiynau galw heibio bob pythefnos gyda Keith Ingram, Arweinydd Awtistiaeth Caerdydd a'r Fro, gan gwmpasu popeth am niwroamrywiaeth.



Ymwadiad

Nid yw mwyafrif y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr hwn yn cael eu rheoli na'u rhedeg gan Gyngor Bro Morgannwg. Cafodd y cylchlythyr hwn ei greu mewn ymdrech i'ch helpu i gysylltu gwasanaethau. Ni ellir dal Cyngor Bro Morgannwg yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw sefydliad allanol a enwir yn y cylchlythyr hwn ac ni ellir ei ddal yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled a achosir gan unrhyw anghywirdeb yn y cylchlythyr hwn, nac ychwaith am weithredoedd unrhyw un o'r sefydliadau allanol a restrir.

Nid yw rhestru sefydliad yn y cylchlythyr hwn yn golygu bod Cyngor Bro Morgannwg yn cymeradwyo'r sefydliad hwnnw, ac nid yw peidio â rhestru unrhyw sefydliad yn golygu nad yw'r Cyngor yn ei gefnogi ychwaith.

Y Mynegai: **0800 5871 014** E-bost: TheIndex@valeofglamorgan.gov.uk

Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk/ymynegai Facebook: [@VOGFIS](https://www.facebook.com/VOGFIS) X: [@ValeFIS](https://twitter.com/ValeFIS)

